
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

# Natur Ffyniannus a Chysylltedd Diwylliannol: Creu Llewyrch, Gwydnwch a Llesiant i Gymru





# Blaenoriaethau i Gymru

Ym mis Mai 2026, bydd etholiad y Senedd yn cyflwyno nifer uwch o Aelodau'r Senedd. Bydd hyn yn golygu bod gan bobl Cymru fwy o gynrychiolaeth yn y Senedd nag erioed o'r blaen, ac y bydd angen digynsail am gydweithio ar draws y sbectrwm gwleidyddol a thu hwnt, er mwyn creu dyfodol ffyniannus a gwydn i Gymru.

Beth bynnag fydd cyfansoddiad terfynol y pleidiau gwleidyddol yn y Senedd, bydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cefnogi pob arweinydd gwleidyddol i gyflwyno gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Cymru.

Mae gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru strategaeth 10 mlynedd newydd ac wrth ei chraidd mae tri nod uchelgeisiol: adfer natur, rhoi terfyn ar fynediad anghyfartal at natur, harddwch a hanes, ac ysbrydoli miliynau mwy o bobl i falio am hyn a chymryd camau gweithredu erbyn 2050. Dyma newidiadau cymdeithasol y mae angen i ni helpu i'w gwneud os ydym am gyflawni ein pwrpas elusennol a gadael byd naturiol a diwylliannol sy'n llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gan dynnu ar ein harbenigedd, ein gwybodaeth a'n mewnwelediadau a gafwyd trwy 130 mlynedd o brofiad ymarferol yng Nghymru, rydym wedi nodi 5 blaenoriaeth hollbwysig yr ydym yn credu y dylent fod ar flaen yr agenda wleidyddol yn ystod etholiad y Senedd sydd ar ddod. Dyma'r meysydd yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflawni, gyda Llywodraeth Cymru, a'r ystod ehangaf bosibl o sefydliadau cyhoeddus, elusennol a phreifat.

**1** Adfer natur er budd Cymru a'r blaned

**2** Datgloi mynediad at natur, harddwch a hanes

**3** Chwyldroi teithio cynaliadwy ar gyfer dyfodol mwy gwyrdd

**4** Diogelu gweithlu Cymru ar gyfer y dyfodol

**5** Grymuso cymunedau drwy ynni adnewyddadwy



# 1 Adfer natur er budd Cymru a'r blaned

**Mae argyfwng yr hinsawdd a natur yn effeithio ar bob un ohonom. Mae angen natur ar bob un ohonom i oroesi; cyflenwad dŵr glân, peillio ein cnydau, yr awyr rydyn ni'n ei hanadlu.**

Rhaid cymryd camau brys os yw Cymru am wrthdroi dirywiad natur erbyn 2030, ei hadferiad erbyn 2050 a chyflawni ei hymrwymiad cyfreithiol i fod yn garbon sero net erbyn 2050.

Credwn fod gan atebion sy'n seiliedig ar natur rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi ein cymdeithas i addasu, o adfer mawndiroedd i ddal a storio carbon; sefydlu coetiroedd wedi'u targedu i ddarparu cynefin, cysgod a lleihau erydiad pridd; i ddolydd gorlifdir ac adfer afonydd i arafu llif dŵr a lleihau llifogydd.

Gyda dros 90% o dirwedd Cymru yn cael ei defnyddio at ddibenion amaethyddol, mae cyfle enfawr i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir ein cenedl chwarae rôl hyd yn oed yn fwy mewn adferiad natur a gwydnwch hinsawdd, wrth gynhyrchu bwyd da ac iach a rhedeg busnesau cynaliadwy. Nid natur neu fwyd yw'r dewis, mae angen y ddau arnom; mae amgylchedd naturiol iach yn sail i gynhyrchu bwyd da.

## Chwarae ein rhan

Ar Ben Llŷn, rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i dreialu model Taliad am Ganlyniadau gyda'n ffermwyr tenant. Mae'r treial yn mabwysiadu dull arloesol ar gyfer y fferm gyfan, gyda thaliadau yn seiliedig ar y canlyniadau dymunol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, ac yn rhoi'r penderfyniad yn nwylo'r ffermwr dros y camau gweithredu y mae am eu cymryd.

Rydym yn falch o fod yn cefnogi ein tenantiaid i fabwysiadu dull ffermio sy'n gyfeillgar i natur ac yn credu bod gan fenter dan arweiniad ffermwyr werth gwirioneddol, wrth ein helpu i gyflawni tirweddau iach a gwydn sy'n llawn bywyd gwyllt. Rydym eisoes yn gweld y manteision i natur, o ddolydd a chynefinoedd rhostir wedi'u hadfer i ailgyflwyno pori cadwraeth i'r llethrau arfordirol. Mae'r tair fferm yn y cynllun wedi gweld cynnydd mewn bioamrywiaeth o 10%-15%, gyda ffermwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg am eu gwaith.

## Mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Flaenoriaethu monitro, cyllid hirdymor a sicrhau adnoddau i gefnogi gweithrediad Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth), gyda chamau clir, uniongyrchol i'w cyflawni rhwng 2026 a 2030. Mae angen cyflwyno deddfwriaeth eilaidd sy'n diffinio'r targedau o fewn 12 mis i gydsyniad brenhinol y Bil er mwyn sicrhau nad yw camau gweithredu yn cael eu gohirio.
- Cefnogi ffermwyr a rheolwyr tir drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i symud ymlaen y tu hwnt i gamau sylfaenol yr haen 'gyffredinol' i'r haenau 'dewisol' a 'chydweithredol' sy'n cyflawni mwy dros natur a'r hinsawdd. Mae angen ariannu cyngor ac arweiniad yn briodol a'u bod ar gael yn rhwydd i gefnogi ffermwyr drwy haenau'r cynllun, gan symud ymlaen ar hyd y daith i ffermio cynaliadwy.
- Erbyn 2027, cyflwyno pob cam o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o fewn yr haenau 'dewisol' a 'chydweithredol'. Dyrannu dros hanner cyllideb y cynllun i'r haenau uwch hyn i wobrwyo'r rhai sy'n gwneud fwyaf dros natur, yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd a ffibr cynaliadwy. Byddai'r ymrwymiad hwn yn sicrhau nad ydym yn ailadrodd camgymeriadau cynlluniau blaenorol gan roi cymhelliant i'r status quo.
- Ymrwymo i gyflwyno adroddiadau blynyddol ar effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy tuag at gyrraedd targedau natur a hinsawdd Cymru, gydag ymrwymiad i adolygu effeithiolrwydd camau gweithredu a'r gallu i'w haddasu yn unol â hynny.
- Sicrhau, er mwyn cefnogi adferiad natur, bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd yn hwyluso cymunedau a busnesau gwledig llewyrchus drwy ddarparu cyfleoedd i ehangu a gwella mynediad i'r cyhoedd; gwneud mwy o gadwyni cyflenwi bwyd yn lleol; a chynyddu cyfleoedd swyddi mewn diwydiannau amrywiol ond ategol.

## Beth mae pleidleiswyr yn ei feddwl?

Mae 64% o bleidleiswyr yn poeni am newid hinsawdd a'i effeithiau yng Nghymru, gyda 56% yn galw am fwy o gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i atal a gwrthdroi'r broses o golli natur erbyn 2030[1].



# 2 Datgloi mynediad at natur, harddwch a hanes

**Ni ddylai mynediad at natur, harddwch a hanes fod yn loteri cod post, dylai pawb yng Nghymru allu mwynhau'r manteision y gallant eu rhoi i'n hiechyd, ein llesiant a'n cymunedau.**

Yn sgil y pandemig, toriadau cyllideb a chwyddiant, mae cynaliadwyedd sefydliadau diwylliannol a mynediad at ein diwylliant a'n treftadaeth Gymreig bwysig wedi dioddef yn sylweddol. Mae Cymru bellach yn ail isaf yn Ewrop o ran gwariant diwylliannol, gyda Chymru'n gwario £69.68 y pen ar wasanaethau diwylliannol, o'i gymharu â £91.12 y DU[2]. Mae'r pwysau ariannol yma wedi llesteirio gallu cyrff cyhoeddus a'r sector diwylliant i ddarparu gwasanaethau, yr ydym yn gwybod sy'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau â thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, mewn ardaloedd gwledig â llai o leoliadau diwylliannol, ac aelwydydd incwm is.

Ar yr un pryd, mae bron i hanner miliwn o bobl yng Nghymru â diffyg mynediad at natur a mannau gwyrdd o fewn 10 munud ar droed o'u cartrefi[3]. Mae ardaloedd trefol a rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig ein cenedl yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam a'r Rhyl yn cael eu heffeithio'n arbennig.

Rhaid i werthfawrogi ein llesiant diwylliannol a naturiol fod yn flaenoriaeth ac mae'n hanfodol i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn nodi boddhad bywyd uwch, ymdeimlad o berthyn ac effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd meddwl[4]. Tra bod astudiaeth o 2.3 miliwn o oedolion yng Nghymru wedi canfod bod mwy o gysylltiad â mannau gwyrdd yn gysylltiedig â gostyngiad o 20% yn y tebygolrwydd o ddatblygu anhwylderau iechyd meddwl cyffredin[5].

Dylem ni i gyd allu mwynhau diwylliant a mannau gwyrdd yn agos at ble rydym yn byw, ac rydym yn annog bod angen gwneud mwy i gynyddu mynediad a dod â›r manteision hyn i bob cymuned.

## Beth mae pleidleiswyr yn ei feddwl?

Mae 44% o bleidleiswyr eisiau mwy o fynediad at wasanaethau diwylliannol yng Nghymru, gyda 23% yn galw am fwy o fannau gwyrdd cyhoeddus yn eu cymuned[7].

## Mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Gynyddu cyllid ar gyfer diwylliant nes bod gwariant y pen yn gymharol â gwledydd Ewropeaidd tebyg, gan alluogi cymunedau i gael mynediad at wasanaethau diwylliannol ger lle maent yn byw[6].
- Creu safle angor ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, gan gynyddu mynediad at ddiwylliant Cymru, creu swyddi lleol, cefnogi artistiaid i aros yng Nghymru a ffurfio rhan bwysig o economi ymwelwyr Cymru. Cymru yw'r unig genedl yn y DU nad oes ganddi ganolfan sylweddol ar gyfer celfyddydau cyfoes, sy'n gallu arddangos a chefnogi diwydiannau creadigol a phwysigrwydd diwylliannol celf Cymru a diwylliant Cymru.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod o leiaf hanner yr incwm o'r ardoll ymwelwyr twristiaeth newydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau diwylliannol lleol ac atyniadau ymwelwyr yn yr ardal, gan helpu i gefnogi eu rheolaeth a gwarchodaeth o'r dirwedd naturiol a diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Cefnogi cymunedau gwledig a threfol i gysylltu â natur trwy seilwaith gwell a mannau gwyrdd o ansawdd da. Ymrwymo i barhau i fuddsoddi mewn Partneriaethau Natur Lleol a chreu mannau gwyrdd hygyrch - yn enwedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru - gan sicrhau mannau diogel, glân, a gynhelir yn dda ger lle mae pobl yn byw.

## Chwarae ein rhan

Yn Erddig yn Wrecsam rydym yn falch o fod wedi creu Coedlan Goffa mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan ddarparu lle cyhoeddus newydd ar gyfer cofio, myfyrio a chysylltu â natur. Dyluniwyd y goedlan ar y cyd â'r gymuned leol ac mae'n cynnwys gwahanol ardaloedd wedi'u cysylltu trwy lwybrau gwastad, hygyrch.

Yn y canol mae dôl blodau gwyllt sy'n rhoi lle cymdeithasol awyr agored ar gyfer gweithgareddau, ynghyd ag adrannau coediog ar gyfer bywyd gwyllt, a phyllau gwasgaredig, gwrychoedd a llennyrch coediog sy'n darparu cynefinoedd pellach. Mae celf a natur wedi dod at ei gilydd yn hyfryd yn y lle arbennig hwn, gyda'r goedlan hefyd yn cynnwys darnau gwaith wedi'u comisiynu gan Fardd Cenedlaethol Cymru a'r artist gweledol Rachel Jones.

Mae'r lle gwyrdd diogel a hygyrch hwn ger Wrecsam yn rhoi lle i bobl leol, cymunedau ac ymwelwyr elwa o natur a diwylliant.



# 3 Chwyldroi teithio cynaliadwy ar gyfer dyfodol mwy gwyrdd

**Os yw Cymru am gyrraedd ei tharged o 45% o deithiau wedi'u gwneud gan ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy erbyn 2040, a dod yn garbon sero net erbyn 2050, mae angen i ni weld newid sylweddol yn y ffordd y darperir seilwaith trafnidiaeth werdd, gan greu system drafnidiaeth sy'n darparu ar gyfer pobl a'r amgylchedd.**

Mae hyd at 50% o gartrefi bellach yn gwario dros 10% o'u hincwm ar redeg car, tra bod 23% o bobl sy'n ddibynnol ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn wynebu'r her o brisiau cynyddol, ac mewn rhai ardaloedd, llai o wasanaethau[8]. Mae bron i 75% o bobl ifanc yn dweud y byddent yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy pe bai am ddim[9].

Mae tlodi trafnidiaeth yn effeithio'n sylweddol ar ardaloedd gwledig, cartrefi incwm is a phobl ifanc, gan gynnwys eu gallu i gael mynediad at wasanaethau hanfodol a chyfleoedd hamdden, fel mynediad at ddiwylliant a mannau gwyrdd.

Mae buddsoddi mewn rhwydwaith trafnidiaeth fwy cynaliadwy, dibynadwy a fforddiadwy hefyd yn cyflwyno cyfle sylweddol i'r sector twristiaeth gefnogi opsiynau teithio mwy gwyrdd ar gyfer ymwelwyr a phobl sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn.

## Mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a threfol, er mwyn galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau drwy gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy sydd â chysylltiadau da.
- Adeiladu ar y cynllun peilot prisiau is i bobl ifanc drwy gyflwyno cynllun trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl dan 25 oed, gan gefnogi mynediad cyfartal at wasanaethau ledled Cymru.
- Gweithio gyda'r sector twristiaeth i beilota tocyn aelodaeth trafnidiaeth a thwristiaeth Cymru, gan gynnig gostyngiadau a chymhellion i ddefnyddwyr sy'n teithio drwy ddulliau cynaliadwy, gellid cefnogi hyn drwy gronfeydd yr ardoll dwristiaeth.

## Chwarae ein rhan

Bob blwyddyn mae mwy na 500,000 o bobl yn ymweld â Phen y Fan ym Mannau Brycheiniog, copa uchaf De Cymru. Eto i gyd, rydym yn gwybod bod mynediad i'r dirwedd anhygoel hon wedi bod yn ddibynnol iawn ar ddefnyddwyr sydd â char, ac yn rhwystr i'r rhai heb drafnidiaeth breifat.

Rydym wedi bod yn archwilio opsiynau teithio cynaliadwy ar gyfer y lle arbennig hwn ac rydym yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Stagecoach i dreialu tocyn bws £1 ar gyfer teithiau rhwng Merthyr Tudful, Storey Arms ac Aberhonddu. Mae'r tocyn yn galluogi cymunedau lleol ac ymwelwyr i gael mynediad at y gwasanaeth am bris gostyngol a manteisio ar amser yn yr awyr agored.

## Beth mae pleidleiswyr yn ei feddwl?

Mae 61% o bleidleiswyr yn pryderu nad oes gan eu hardal leol ddigon o seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus[10].



# 4 Diogelu gweithlu Cymru ar gyfer y dyfodol

**Os ydym am gyrraedd ein targedau natur a hinsawdd, mae angen i Gymru fuddsoddi mewn sgiliau gwyrdd, dealltwriaeth ecolegol a gweithlu sydd wedi'i baratoi'n dda ar gyfer y dyfodol a'n trawsnewidiad i economi werdd.**

Rydym yn cefnogi uchelgeisiau gwasanaeth natur cenedlaethol i Gymru i gysylltu, meithrin capasiti a bod yn fwy gweledol trwy rolau newydd, lleoliadau â thâl, prentisiaethau, addysg a hyfforddiant, a hoffem weld gwaith adeiladu ar y seilwaith hwn yn nhymor nesaf y Senedd. Mae datgloi cyfleoedd newydd yn arbennig o hanfodol yng nghyd-destun diweithdra cynyddol ac 1 o bob 8 swydd yn cael ei thalu llai na'r cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru[11].

Yn ogystal â chefnogi sgiliau a swyddi gwyrdd, rydym hefyd yn annog bod mwy yn cael ei wneud i amddiffyn ein sector diwylliant ar gyfer y dyfodol. Am bob £1 a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, aeth £2.51 yn ôl i'r economi, ond mae cyllid wedi gostwng 40% mewn termau real ers 2010[12]. Mae'r pwysau ariannol yma wedi arwain at ansicrwydd swyddi a diswyddiadau ar draws y sector. Mae'n hanfodol bod ein casgliadau cenedlaethol a'n treftadaeth ddiwylliannol yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac nad ydym yn colli sgiliau crefft treftadaeth gwerthfawr, sy'n hanfodol i warchod amgylchedd hanesyddol gwerthfawr ein cenedl.

## Mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Ailwampio system prentisiaethau Cymru a mabwysiadu'r dull ardoll hyblyg a ddefnyddir yn Lloegr, gan roi mwy o ddewis i gyflogwyr ynghylch dyrannu arian. Dylai hyn gynnwys adolygiad o offer, gofynion sgiliau swyddogaethol, cymhellion cyflogwyr ac ehangu cwmpas yr ardoll i adlewyrchu costau cudd, gan helpu i leihau rhwystrau i'w derbyn.
- Adolygu fframweithiau prentisiaeth presennol Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y sector i sicrhau bod y rhain yn cefnogi targedau natur a hinsawdd Cymru orau, ac yn mynd i'r afael â›r bwlch sgiliau treftadaeth ddiwylliannol.
- Blaenoriaethu integreiddio gwasanaeth natur cenedlaethol i Gymru o fewn fframweithiau cyflawni amgylcheddol, sgiliau a llesiant yn y dyfodol.
- Diogelu gweithlu Cymru ar gyfer y dyfodol gyda buddsoddiad mewn datblygu sgiliau, prentisiaethau a llwybrau cyflogaeth sy'n hwyluso'r trawsnewidiad i economi werdd.

## Beth mae pleidleiswyr yn ei feddwl?

Mae 53% o bleidleiswyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i ddatblygu sgiliau a phrentisiaethau sy'n seiliedig ar dreftadaeth, gyda 48% yn galw am ddatblygu mwy o swyddi gwyrdd yng Nghymru[13].

## Chwarae ein rhan

Rydym yn awyddus i agor llwybrau newydd at weithio yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chynnig amrywiaeth o brentisiaethau yng Nghymru. Mae ein prentisiaethau ar agor i bawb ac yn cynnig cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith â thâl, gan gefnogi teithiau pobl i dreftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd naturiol, sgiliau digidol, lletygarwch a mwy.

Yn ogystal â phrentisiaethau ffurfiol, rydym yn falch o gynnig llefydd i'n cymunedau ddod at ei gilydd, datblygu sgiliau newydd, a chefnogi adferiad natur.

Yn Fferm Tŷ Mawr, yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i greu tirwedd wydn sy'n gyfoethog o ran natur. Mae hyn yn cynnwys creu Hwb Sgiliau newydd ar gyfer sgiliau cefn gwlad, lle byddwn yn gweithio gyda cholegau lleol, ysgolion, grwpiau cyfiawnder cymdeithasol a chymunedol i gynnig profiad ymarferol, gan feithrin cysylltiad dyfnach rhwng pobl a natur.

Bydd yr hwb yn grymuso pobl o bob cefndir i gyfrannu at adferiad natur, gan adeiladu rhwydwaith medrus i amddiffyn a gwella'r dirwedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



# 5 Grymuso cymunedau drwy ynni adnewyddadwy

**Mae gan ynni adnewyddadwy rôl hanfodol i'w chwarae wrth i Gymru gyrraedd sero net ac os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei tharged o 100% o drydan adnewyddadwy erbyn 2035, rhaid i'r cynhyrchiad fod bron bedair gwaith yn fwy yn y degawd nesaf[14].**

Gyda buddsoddiad cynyddol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ledled Cymru, credwn fod cyfle enfawr i'n cenedl ein hunain elwa mwy o rannu ei hadnoddau naturiol. Yn unol ag argymhelliad Grŵp Her Sero Net Cymru 2035, hoffem weld mwy o ffocws ar ddefnyddio Cronfeydd Budd Cymunedol fel rhan o brosiectau, a'r cyfleoedd y gallai'r rhain eu cynnig i bobl Cymru.

Er bod rhai datblygwyr eisoes yn darparu Cronfeydd Budd Cymunedol, credwn fod angen cyflwyno dull mwy ffurfiol ar gyfer monitro, sefydlu arferion gorau a sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn elwa, boed hynny trwy elfen o berchnogaeth leol, sgiliau a hyfforddiant newydd, buddsoddi mewn natur a gweithredu ar yr hinsawdd, a darparu gwasanaethau fel gweithgareddau diwylliannol. Mae'n hanfodol ein bod yn creu system ynni fwy gwydn ac yn datgloi datgarboneiddio ledled Cymru.

## Chwarae ein rhan

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn atebion ynni mwy gwyrdd ac mae mwy nag 80% o'r ynni a ddefnyddir mewn lleoliadau Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Rydym yn falch o rannu ein gwybodaeth, ein profiad a'n gwersi a ddysgwyd gydag eraill, gan gynnwys chwarae ein rhan i gefnogi cymunedau lleol ar eu taith ynni adnewyddadwy.

Yn Eryri, rydym wedi cefnogi datblygiad cynlluniau hydro ar raddfa fach a sefydlu grwpiau buddion cymunedol – Ynni Padarn Peris, Ynni Anafon Energy ac Ynni Ogwen – sy'n cynhyrchu trydan ar gyfer y cymunedau, ac mae arian dros ben yn cael ei ailfuddsoddi mewn prosiectau amgylcheddol a chymdeithasol yn yr ardal. Trwy gydweithio, fe wnaethom hefyd helpu i ddatblygu Ynni Lleol, gan alluogi mwy o bobl i elwa o ddefnyddio ynni lleol.

## Mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru:

- Gyflwyno cofrestr a map o fuddion natur, cymuned a sgiliau cyflogaeth sy'n cadw gwybodaeth ar draws datblygiadau ynni solar a gwynt ar y tir ac ar y môr erbyn diwedd 2027.
- Diffinio'r meini prawf ar gyfer cael mynediad at Gronfeydd Buddion Cymunedol yng Nghymru ac egwyddorion arferion gorau erbyn 2028, gan sicrhau ailddosbarthiad economaidd incwm o adnoddau naturiol Cymru yn ôl i gymunedau.
- Sicrhau bod cyllid yn cefnogi'r broses o ddiogelu gweithlu Cymru ar gyfer y dyfodol gyda buddsoddiad mewn datblygu sgiliau, prentisiaethau a llwybrau cyflogaeth sy'n hwyluso'r trawsnewid i economi werdd. Dylai hyn gynnwys sefydlu grŵp traws-sector o arbenigwyr allweddol o addysg, yr amgylchedd a busnes i gydweithio â Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd, meysydd i'w datblygu ac anghenion cymunedol.
- Nodi bod pob prosiect adnewyddadwy masnachol newydd uwchlaw 5MW yn cynnig cyfraniad sydd o leiaf 10% i'r gronfa hon ar gyfer oes y dechnoleg, yn seiliedig ar fodelu'r cynhyrchiad disgwyliedig blynyddol a gwerth marchnad allforio cyfredol.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem i alluogi masnachu trydan ar lefel Cymru erbyn 2035.

## Beth mae pleidleiswyr yn ei feddwl?

Mae mwy na hanner y pleidleiswyr (54%) eisiau mwy o gefnogaeth i gymunedau gael mynediad at ynni adnewyddadwy lleol[15].



## Cysylltwch â ni

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech drafod unrhyw beth yn y ddogfen hon, cysylltwch â'n tîm Materion Allanol Cymru.

externalaffairswales@nationaltrust.org.uk

©Ymddiriedolaeth Genedlaethol Elusen Gofrestredig 205846

© Delweddau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol/James Dobson/Jason Elberts/John Millar/Paul Harris/Sophie Bolesworth/Phil Boyd

## Cyfeirnodau

1, 7, 10, 13, 15 Arolwg YouGov Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru (2025)

2 Senedd Cymru (2025) *Degawd o doriadau: Cymru mewn perygl o gael ei gadael ar ôl o ran llwyddiant ym meysydd diwylliant a chwaraeon.* Ar gael ar: https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/degawd-o-doriadau-cymru-mewn-perygl-o-gael-ei-gadael-ar-ol-o-ran-llwyddiant-ym-meysydd-diwylliant-a-chwarae-on/ (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

3 Fields In Trust Cymru (n.d.) *Green Space Index.* Ar gael ar: https://fieldsintrust.org/insights/green-space-index (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

4 Llywodraeth Cymru (2020) *Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant.* Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/archwilior-berthynas-rhwng-di-wylliant-a-llesiant.pdf (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

5 NIHR (2023) *Study funded by NIHR highlights inequalities in access to green spaces and mental health.* Ar gael ar: https://www.nihr.ac.uk/news/study-funded-nihr-highlights-inequalities-access-green-spaces-and-mental-health (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

6 Senedd Cymru (2025) *Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon.* Ar gael ar: https://senedd.wales/media/ekumt3dy/cr-ld16899-e.pdf (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

8 Sustrans Cymru (2022) *Pobl yng Nghymru yn wynebu realiti tlodi trafnidiaeth, medd adroddiad Sustrans.* Ar gael ar: https://www.sustrans.org.uk/cy/ein-blog/newyddion/pobl-yng-nghym-ru-yn-wynebu-realiti-tlodi-trafnidiaeth-medd-adroddiad-sustrans/ (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

9 Senedd Cymru (2024) *Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc – ai dyna'r ffordd ymlaen?* Ar gael ar: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/trafnidiaeth-gyhoeddus-am-ddim-i-bobl-ifanc-ai-dyna-r-ffordd-ymlaen/ (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

11 Cymru Cyflog Byw (2023) *Pay boost for over 22,800 Welsh workers as the real living wage increases to £12.* Ar gael ar: https://livingwage.wales/pay-boost-for-over-22800-welsh-workers-as-the-real-living-wage-increases-to-12/ (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

12 Cyngor Celfyddydau Cymru (2024) *Adroddiad newydd yn amlygu budd economaidd buddsoddi yng nghelfyddydau Cymru – lle mae pob punt a wariwyd yn rhoi £2.51 yn ôl i'r economi.* Ar gael ar: https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/adroddi-ad-newydd-yn-amlygu-budd-economaidd-buddsoddi-yng-nghel-fyddydau (Cyrchwyd 1 Medi 2025)

14 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (2025) *Ynni adnewyddadwy yng Nghymru; a oes digon o gynnydd?* Ar gael ar: https://nationalinfrastructurecommission.wales/cy/2025/03/10/renewable-energy-in-wales-sufficient-progress/ (Cyrchwyd 1 Medi 2025)